ETS CymruWales
Safonau Addysg Hyfforddiant
Education Training Standards

Gwaith Ieuenctid • Gwaith Chwarae
Youth Work • Playwork

# Cynllun Datblygu'r Gweithlu Ar Gyfer Y Sector Gwaith Ieuenctid Yng Nghymru

**Datblygwyd a hwyluswyd y cynllun hwn gan Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru a Grŵp Cyfranogi Gweithredu Datblygu'r Gweithlu. Ariennir y gwaith hwn gan Lywodraeth Cymru.**

Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025







Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

**www.etswales.org.uk**

# Tudalen Gynnwys


**1. Cyflwyniad** **1**

1.1. Rhagair 1

1.2. Cefndir 2

1.3. Rhesymeg 2

1.4. Ymgynghori ac Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid 3

1.5. Gweledigaeth ac uchelgais ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru 4

**2. Fframwaith Llywodraethu Gwaith Ieuenctid** **5**

**3. Y Gweithlu Presennol** **6**

3.1. Archwiliad Sgiliau a Hyfforddiant 6

**4. Cymwysterau Gwaith Ieuenctid a'r Llwybr Cynnydd** **7**

**5. Dysgu Proffesiynol (Datblygiad Proffesiynol Parhaus) ar gyfer y Gweithlu** **9**

**6. Ffyrdd o Weithio** **10**

**7. Y Gymraeg a Diwylliant Cymru** **11**

**8. Diwallu anghenion y bobl ifanc trwy ddatblygu'r gweithlu** **12**

**9. Hyrwyddo Gwaith Ieuenctid fel Dewis Gyrfa** **13**

**10. Llywodraethu ac Atebolrwydd** **14**

**11. Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru** **15**

**12. Cyfeiriadau a Chydnabyddiaethau** **16**

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Rhagair

*"Rhaid i'r sector (Gwaith Ieuenctid) symud oddi wrth ddull tameidiog ac oportiwnistaidd o hyfforddi a datblygu'r gweithlu tuag at ddull systematig, blaengar a chynaliadwy."* Dyna beth yw barn y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro yn eu hadroddiad terfynol, ***Mae'n Bryd Cyflawni dros Bobl Ifanc yng Nghymru (2021)***. Bu iddynt argymell cynllun datblygu'r gweithlu ar gyfer y sector Gwaith Ieuenctid cyfan i helpu i roi'r dull cydlynol, cynlluniedig hwnnw, fel rhan o sicrhau model cynaliadwy ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.

Yna, bu i'r Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid, y corff sy'n gyfrifol am weithredu argymhellion yr adroddiad Mae'n Bryd Cyflawni, gomisiynu Grŵp Cyfranogi Gweithredu Datblygu'r Gweithlu (GCGDG), a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r sector Gwaith Ieuenctid, i ddatblygu cynllun i alluogi'r gweithlu Gwaith Ieuenctid i dderbyn y gefnogaeth, yr hyfforddiant, y datblygiad a'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt i wasanaethu pobl ifanc Cymru yn well. Buom yn ymgynghori'n eang ar y cynllun yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2025, a hoffem ddiolch i bob un ohonoch a roddodd eich barn a'ch awgrymiadau ar gyfer gwella. Nid yn unig y mae wedi gwneud y ddogfen derfynol yn well ac yn gryfach ond mae wedi ffurfio cynllun y sector Gwaith Ieuenctid – eich cynllun chi!

Gyda'r Cynllun Gweithlu Ieuenctid 3 i 5 mlynedd y cytunwyd arno, gallwn fwrw ymlaen â'r cam nesaf, sef cynhyrchu cynllun cyflawni blynyddol, nodi blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn, a phwy sy'n mynd i wneud beth, pryd i'w roi ar waith, a sut y caiff ei ariannu. Rydym eisoes yn gweld buddion Archwiliad Sgiliau a Hyfforddiant 2024, a nododd yr hyn y mae gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cefnogi ieuenctid a gwirfoddolwyr eu hangen yn nhermau cymwysterau Gwaith Ieuenctid a dysgu a datblygu proffesiynol – **mae 1274 o bobl wedi bod ar gyrsiau ers mis Mawrth 2024.**

*Yn gryno felly, mae'r Cynllun Datblygu'r Gweithlu Gwaith Ieuenctid hwn, a ddyluniwyd ac sy'n eiddo i'r sector, wedi'i fwriadu ar gyfer y rhai sy'n gwneud Gwaith Ieuenctid, y rhai sy'n arwain ac yn rheoli Gwaith Ieuenctid, a'r rhai sy'n ariannu, cyflogi ac yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer Gwaith Ieuenctid. Ei nod yw ein gwneud ni'n fwy effeithiol o ran gwasanaethu pobl ifanc.*

Rydym yn ei gymeradwyo ac yn edrych ymlaen at weithio arno gyda chi.



**Jo Sims**

Cadeirydd Grŵp Cyfranogi Gweithredu Datblygu'r Gweithlu



**Steve Drowley**

Cadeirydd Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru



## 1.2. Cefndir

Mae gan Waith Ieuenctid yng Nghymru hanes cyfoethog sy'n mynd yn ôl degawdau, sy'n cefnogi, tywys ac yn gwella bywydau pobl ifanc trwy ymyrraeth fedrus yn seiliedig ar ddull addysg anffurfiol. Mae Gwaith Ieuenctid wedi'i danategu gan Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC), ei fframwaith cymwysterau ei hun a *Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion*. Mae Gwaith Ieuenctid yn chwarae rôl werthfawr yn natblygiad addysgol, personol a chymdeithasol pobl ifanc trwy ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus gyda phobl ifanc dros amser a thrwy ddarparu mannau diogel lle gall pobl ifanc gymdeithasu, dysgu a chael hwyl.

Fel gydag unrhyw sector neu broffesiwn, ased mwyaf Gwaith Ieuenctid yng Nghymru yw ei weithlu. Tra bod y sector yn parhau i deimlo'r pwysau a'r straen o gyfnod hir o galedi ac yn erbyn cefndir o alw cynyddol gyda llai o adnoddau i fodloni'r galw hwn, mae'r sector yn parhau i fod yn wydn ac yn arloesol, fel y gwelir yn yr Adolygiad Estyn o Wasanaethau Cefnogi Ieuenctid (2018). Ers mis Ebrill 2017, mae gofyn i weithwyr ieuenctid proffesiynol a gweithwyr cefnogi ieuenctid cymwysedig sy'n cael eu cyflogi, gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg, y rheoleiddiwr ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru, ochr yn ochr ag athrawon, staff addysgu oedolion/ dysgu yn seiliedig ar waith a staff addysg bellach.

Mae Gwaith Ieuenctid yn cael ei ddarparu mewn capasiti statudol trwy'r 22 o awdurdodau lleol ac yn elwa o weithlu sector gwirfoddol cadarn. Yn ogystal â hyn, mae yna rai sectorau eraill sy'n cyflogi Gweithwyr Ieuenctid, sy'n cynnig Gwaith Ieuenctid i elwa pobl ifanc a'u cymunedau fel: Y GIG, Tai, y Lluoedd Arfog, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a gwasanaethau mewn lifrai/arfog.

## 1.3. Rhesymeg

Yn 2016, bu i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd gynnal ymholiad i Waith Ieuenctid yng Nghymru. Mewn ymateb i'r ymholiad, sefydlwyd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, a wnaeth pedair ar ddeg o argymhellion yn ei adroddiad ***Mae'n Bryd Cyflawni dros Bobl Ifanc yng Nghymru***. Mae'r cynllun datblygu'r gweithlu hwn wedi'i ddatblygu mewn ymateb i Argymhelliad 13, lle mae angen i Lywodraeth Cymru adeiladu ar ei ymrwymiad i 'ddatblygu a hyrwyddo'r proffesiwn gwaith ieuenctid gyda strwythur gyrfaol sy'n cynnig dilyniant'. Mae'r cynllun yn nodi'r weledigaeth a'r uchelgais ar gyfer y gweithlu gwaith ieuenctid drwy sicrhau bod y sector yn parhau i fod yn hyblyg, ymatebol, cynhwysol a chynaliadwy yng nghyd-destun amgylchedd sy'n newid yn gyflym drwy:

**Mynd i'r Afael â Bylchau Mewn Sgiliau:** Bydd y cynllun hwn, sydd wedi'i wreiddio yn yr Archwiliad Sgiliau a Hyfforddiant Gwaith Ieuenctid (Gorffennaf 2024 https://www.etswales.org.uk/skills-and-training-audit), yn adeiladu ar y cryfderau ac yn mynd i'r afael â'r bylchau sgiliau presennol ac yn y dyfodol o fewn y sector Gwaith Ieuenctid drwy ddarparu rhaglenni hyfforddiant a datblygu wedi'u teilwra sy'n rhoi'r cymwyseddau angenrheidiol i ymarferwyr Gwaith Ieuenctid i ymgysylltu'n effeithiol â phobl ifanc a gwella eu cyfleoedd bywyd.

**Diwallu Anghenion Amrywiol:** Mae Cymru'n genedl amrywiol gyda phobl ifanc a gweithlu o gefndiroedd, galluoedd, dyheadau ac amgylchiadau amrywiol. Bydd cynllun datblygu'r gweithlu yn helpu i sicrhau bod gan ymarferwyr Gwaith Ieuenctid yr adnoddau i ddiwallu anghenion amrywiol pobl ifanc, yn cynnwys y rhai o gymunedau ymylol, lleiafrifoedd ethnig a chefndiroedd difreintiedig.

**Cynnal safonau proffesiynol:** Drwy fuddsoddi yn Natblygiad y Gweithlu. Gall Gweithwyr Ieuenctid gynnal a datblygu safonau a chymwysterau proffesiynol ymhellach, gan arwain at fwy o gydnabyddiaeth i Waith Ieuenctid ar draws cymdeithas. Mae safonau a chymwysterau proffesiynol yn hyrwyddo mwy o hyder a gall fod yn elfennau pwysig o ran denu mwy o bobl i'r proffesiwn a gwella cyfraddau cadw ymysg y gweithlu presennol, drwy ddilyn y llwybr cynnydd a nodir yn adran 4.

**Addasu i Gyd-destunau sy'n Newid:** Mae'r sector Gwaith Ieuenctid yn gweithredu o fewn cyd-destun cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol sy'n datblygu'n barhaus. Mae cynllun datblygu'r gweithlu dynamig yn galluogi i sefydliadau ac ymarferwyr addasu i'r newidiadau hyn drwy ddarparu cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnwys pynciau fel troseddau â chyllyll, ymddygiad gwrthgymdeithasol, gweithio gyda'r rhai nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant ac Ôl-16, LHDTC+ ymysg amrywiaeth o gymhlethdodau sy'n effeithio ar bobl ifanc. Cydnabyddir mai gweithwyr ieuenctid sydd yn y sefyllfa orau i weithio gyda phobl ifanc i fynd i'r afael â'r materion hyn oherwydd natur y perthnasoedd proffesiynol gwirfoddol sy'n cael eu meithrin.

**Hyrwyddo Arloesi ac Arfer Orau:** O fewn y cynllun hwn, bydd amcanion yn cynnwys cyflwyno rhannu arferion gorau, arloesi a chydweithio ymysg gweithwyr ieuenctid a sefydliadau. Mae hyn yn meithrin diwylliant o ddysgu a gwella o fewn y sector.

**Cefnogi Dilyniant Gyrfa:** Ar gyfer unigolion sy'n gweithio yn y sector Gwaith Ieuenctid, gall cynllun datblygu'r gweithlu ddarparu llwybrau clir ar gyfer dilyniant gyrfa, yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol, arbenigaeth a rolau arweinyddiaeth o fewn y sector.

**Alinio â Blaenoriaethau Cenedlaethol:** Mae'r cynllun datblygu'r gweithlu wedi'i alinio gyda pholisïau a blaenoriaethau cenedlaethol sy'n berthnasol i Waith Ieuenctid, gan sicrhau bod Gwaith Ieuenctid yn cyfrannu'n effeithiol at amcanion cymdeithasol ac economaidd ehangach, fel gwella cyrhaeddiad addysgol, lleihau diweithdra ymhlith pobl ifanc, cynyddu cynhwysiad cymdeithasol a sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc, heb golli ei bwyslais unigryw ar waith ieuenctid ynddo'i hun.

Yn gyffredinol, mae cynllun datblygu'r gweithlu ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru yn hanfodol ar gyfer meithrin gweithlu medrus, llawn cymhelliant ac ymatebol a all gefnogi datblygiad cyfannol a lles pobl ifanc yn effeithiol ar draws y wlad.

## 1.4. Ymgynghori ac Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid

Yn ystod camau dylunio a chreu'r Cynllun Datblygu'r Gweithlu hwn, roedd aelodau o Grŵp Cyfranogi Gweithredu Datblygu'r Gweithlu, Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru a Llywodraeth Cymru yn rhan o'r broses ac ymgynghorwyd â nhw yn ystod pob drafft. Yn ogystal â hyn, comisiynwyd Ymgynghorydd Gwaith Ieuenctid i ymchwilio i faterion sy'n effeithio ar ymarferwyr ac uwch arweinwyr ar draws y sector, gan sicrhau bod y rhain yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn y cynllun hwn.




Pe bai Ysgrifennydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â chorff cenedlaethol, gallai a dylai'r cynllun hwn gael ei fabwysiadu gan y corff hwn fel rhan o'r broses o drosglwyddo swyddogaethau iddo, yn unol ag argymhelliad perthnasol y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro. Os na, mae'r cynllun yn darparu'r sail ar gyfer unrhyw gynllun datblygu gweithlu cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid yn y dyfodol. Er mwyn sicrhau bod y cynllun hwn yn gynrychioliadol ac yn cael ei gymeradwyo gan y sector, mae'r broses ymgynghori wedi'i chynnal fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Cam 1** | Cafodd is-grŵp tasg a gorffen (y GCGDG) ei sefydlu i ddatblygu a chymeradwyo cynllun drafft. |
| **Cam 2** | Mae'r Cynllun Datblygu'r Gweithlu drafft yn cael ei gyflwyno i'r GCG Datblygu'r Gweithlu ar gyfer ei lofnodi ai'i gymeradwyo. |
| **Cam 3** | Ymgynghori â'r gweithlu Gwaith Ieuenctid ledled Cymru, ac ymgysylltu â phartneriaid a grwpiau strategol allweddol fel Grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid, Grŵp Datblygu Gweithlu CWVYS a Bwrdd Gweithredu'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid. |
| **Cam 4** | Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru ar gyfer ymateb ffurfiol, a mabwysiadu Cynllun Datblygu Gweithlu Ieuenctid gan y sector Gwaith Ieuenctid. |

**Yn ystod yr ymgynghoriad, rhoddodd 32 o unigolion adborth gan ddefnyddio'r porth ar-lein, hwyluswyd 3 digwyddiad ymgynghori, y daeth cyfanswm o 34 o bobl iddo, cynhaliwyd 5 gweithdy ymgynghori gyda myfyrwyr ar draws y Sefydliadau Addysg Uwch ar lefelau astudio amrywiol, yn ogystal â mynychu 5 grŵp strategol ar draws y sector. Cynhaliodd cydweithwyr GCG Datblygu'r Gweithlu sesiynau hefyd gyda grwpiau fforwm ieuenctid, er mwyn sicrhau bod y cynllun hwn yn mynd i'r afael yn ddigonol â'u hanghenion a'u blaenoriaethau.**



## 1.5. Gweledigaeth ac uchelgais ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru

Ein gweledigaeth yw sicrhau bod pobl ifanc Cymru (lle bydd rhai ohonynt yn dod yn Weithwyr Ieuenctid eu hunain) yn parhau i gael y gwasanaeth a'r gefnogaeth briodol gan y gweithlu Gwaith Ieuenctid, sy'n diwallu eu hanghenion mewn cyd-destun sy'n newid yn gyflym. Ein gweledigaeth yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru a'r rhai sy'n ymarfer fel Gweithwyr Ieuenctid a sefydliadau sy'n cyflogi Gweithwyr Ieuenctid yn ceisio sicrhau bod yr amodau a'r cyfleoedd i'w gwirfoddolwyr a'u staff Gwaith Ieuenctid yn cael eu cefnogi'n llawn drwy fuddsoddi ynddynt.

**Ein nod yw y byddem yn ymdrechu i gyflawni'r canlynol:**

Lefelau uchel o ymgysylltiad, cymhelliant, lles a boddhad ymysg staff a gwirfoddolwyr

Gwell cyfraddau recriwtio a chadw staff trwy gynnig amodau gwaith hyblyg a deniadol, dysgu proffesiynol a chyfleoedd i ddatblygu eu gyrfa

Gweithlu gwybodus sydd wedi'i hyfforddi'n dda sydd wedi ymrwymo i werthoedd ac egwyddorion Gwaith Ieuenctid er mwyn gallu diwallu anghenion newidiol pobl ifanc

Diwylliant tosturiol gyda rheolwyr ac arweinwyr medrus a galluog

Nifer uwch o ymarferwyr Gwaith Ieuenctid sy'n siarad Cymraeg

# 2. Fframwaith Llywodraethu Gwaith Ieuenctid

Yng Nghymru, mae Gwaith Ieuenctid yn cael ei siapio gan bolisi cynhwysfawr a fframwaith deddfwriaethol sy'n pwysleisio pwysigrwydd cefnogi datblygiad, lles a chyfranogiad pobl ifanc mewn cymdeithas. Mae Gweithwyr Ieuenctid a sefydliadau Gwaith Ieuenctid hefyd yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr i rywfaint o bolisïau Llywodraeth Cymru nad ydynt wedi'u hanelu'n uniongyrchol at Weithwyr Ieuenctid. Mae elfennau allweddol o gyd-destun y polisi ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru wedi'u harddangos yn y map crynodeb isod:

## Polisïau, deddfwriaeth a chanllawiau sy'n gysylltiedig â darparu Gwaith Ieuenctid

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**

Mae Gwaith Ieuenctid yn helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu ei saith nod lles ymhellach drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau.

**Deddf Dysgu a Sgiliau 2000**


Mae Awdurdodau Lleol yn cael eu gorfodi i gynnig darpariaethau diogel a Gwasanaethau Cefnogi Ieuenctid i bobl ifanc.

**Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021**

Mae Gwaith Ieuenctid yn gwneud cyfraniad - gwerthfawr i 4 diben y cwricwlwm.

**Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid 2022**

Mae Gwaith Ieuenctid yn chwarae rôl hanfodol mewn ail-ymgysylltu a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant neu sy'n dod yn ddigartref drwy ddarparu darpariaeth a chefnogaeth ddigonol.




## Polisiau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â Gwaith Ieuenctid

**Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol Cymru (2019)**

Mae'r Strategaeth wedi'i anelu at y gweithlu Gwaith Ieuenctid. Mae ei 5 nod clir yn nodi cyfeiriad strategol Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.

**Egwyddorion a Dibenion Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (2022)**

Dogfen y sector sy'n cyflwyno egwyddorion a dibenion Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.

**Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) 2019**

The Youth Work NOS set out the aims and competencies required by practitioners to deliver Youth Work.

**Mae'n Bryd Cyflawni dros Bobl Ifanc yng Nghymru (2021)**

Mae'r Cynllun Datblygu'r Gweithlu yn ymateb i argymhelliad 13 Mae'n Bryd Cyflawni dros Bobl Ifanc yng Nghymru, gan nodir weledigaeth a'r uchelgais ar gyfer y gweithlu Gwaith Ieuenctid.

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) 1990**

Mae Ymarferwyr Gwaith Ieuenctid yn ymdrechu i sicrhau bod Gwaith Ieuenctid yn cael ei gynnig trwy ddull yn seiliedig ar hawliau.

Mae Gwaith Ieuenctid yn cyfrannu at nifer o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: ***Deddf Plant (2004), Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) (2011), Deddf Lles Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) (2016), Cymraeg 2050, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Chynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru***. Mae'r Deddfau, y Mesurau a'r Cynlluniau hyn yn cyfeirio at y gwahanol ffyrdd y mae angen sicrhau bod gan bobl ifanc lais amlwg yn y prosesau gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae gan Waith Ieuenctid y potensial i gyfrannu at y rhaglenni hyn drwy arddangos a hyrwyddo sut all pobl ifanc 11-25 oed fod wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau.

Mae cyd-destun polisi Gwaith Ieuenctid yng Nghymru yn adlewyrchu'r ymrwymiad i hyrwyddo lles a grymuso pobl ifanc, gan feithrin eu cyfranogiad mewn cymdeithas, a sicrhau bod gwasanaethau Gwaith Ieuenctid o safon uchel sy'n bodloni eu hanghenion amrywiol yn cael ei ddarparu.

Mae'r fframwaith statudol newydd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, sy'n cael ei ymgynghori arno ar hyn o bryd, yn cynnig newidiadau i Gyfarwyddiadau a Chanllawiau Gwaith Ieuenctid, ac i ddiffiniad deddfwriaethol Gwaith Ieuenctid. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys unwaith y cytunwyd ar y fframwaith newydd.

# 3. Y Gweithlu Presennol

Mae'r gweithlu Gwaith Ieuenctid presennol yng Nghymru yn un amrywiol sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol gydag amrywiaeth o gymwysterau, cefndiroedd a phrofiadau. **Mae Gwaith Ieuenctid yng Nghymru yn cael ei ddarparu'n bennaf trwy'r 22 o awdurdodau lleol ac amryw o sefydliadau'r sector gwirfoddol gyda'r olaf yn cael y dewis i ddod yn aelod o Gyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru.**

Mae'n ofyniad cyfreithiol bod unrhyw Weithiwr Ieuenctid neu Weithiwr Cefnogi Ieuenctid cyflogedig sy'n meddu ar, neu'n gweithio tuag at, gymhwyster cydnabyddedig ac sy'n darparu gwasanaethau datblygu ieuenctid, yn cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg sy'n gysylltiedig â chymwysterau Gwaith Ieuenctid cydnabyddedig penodol y JNC.

Cyhoeddir data Cyngor y Gweithlu Addysg bob blwyddyn sy'n nodi faint o Weithwyr Ieuenctid cofrestredig, Gweithwyr Cefnogi Ieuenctid cofrestredig ac unigolion sy'n gweithio tuag at gymhwyster sydd wedi'u nodi yn atodlen Cyngor y Gweithlu Addysg. Ar hyn o bryd, mae mwy o Weithwyr Cefnogi Ieuenctid cofrestredig nag o Weithwyr Ieuenctid.

**Mae Data Cyngor y Gweithlu Addysg (mis Mawrth 2025) yn dangos bod 18.9% o Weithwyr Cefnogi Ieuenctid yn nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg ac roedd 15% yn datgan eu bod yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg (9.7% yn anhysbys ar gyfer y ddau)**

Yn ogystal â data Cyngor y Gweithlu Addysg sy'n ymwneud â'r gweithlu cofrestredig, mae ymchwil arall wedi'i wneud i fapio graddau'r gweithlu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru fel:

Mapio Ymchwil a gynhaliwyd gan Elizabeth Bacon (2023), a ariennir drwy'r Rhaglen KESS: Mapio a dadansoddi'r sector Gwaith Ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru, sy'n nodi nifer sylweddol o sefydliadau Gwaith Ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru.

Archwiliad Sgiliau a Hyfforddiant, 2024

## 3.1. Archwiliad Sgiliau a Hyfforddiant

Ochr yn ochr â datblygu'r cynllun hwn, bu i Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru a GCG Datblygu'r Gweithlu gomisiynu Data Cymru i ddatblygu Archwiliad Sgiliau a Hyfforddiant sydd wedi'i ddylunio i fapio'r lefelau sgiliau a chymwysterau ar draws y sector, yn ogystal â'r anghenion hyfforddiant presennol ac yn y dyfodol ar draws y sector. Y tro diwethaf i archwiliad tebyg gael ei gynnal oedd yn 2013 ar draws awdurdodau lleol. Yn ystod y cyfnod dros dro, mae anghenion hyfforddiant wedi datblygu'n sylweddol. Mewn ymateb, er bod yr archwiliad blaenorol wedi'i ddefnyddio fel templed, roedd angen gwneud nifer o newidiadau ac maent wedi'u gwneud ar gyfer Archwiliad Sgiliau a Hyfforddiant 2024. Dosbarthwyd dau arolwg i'r sector, lle'r oedd un ohonynt yn canfod ymatebion gan unigolion i ganfod gallu'r ymarferwyr i ddiwallu anghenion y bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw. Roedd yr arolwg arall wedi'i anelu at sefydliadau ar draws y sector gwirfoddol / trydydd sector ac awdurdodau lleol i ddeall y problemau recriwtio a chadw staff, ynghyd â'r angen i ddatblygu'r gweithlu. Ar gyfer yr arolwg o unigolion, **cafwyd 501 o ymatebion, tra cafwyd 44 o ymatebion i'r arolwg o sefydliadau, gyda 24 ohonynt gan sefydliadau'r sector gwirfoddol a 20 ohonynt gan awdurdodau lleol. O'r archwiliad hwnnw, gwnaed 8 o argymhellion a lluniwyd rhaglen hyfforddiant. Mae mwy o wybodaeth ar gael yma.**

Roedd y canfyddiadau'n dangos nad oes gan **dros 700 o ymarferwyr y lefel cymhwyster gofynnol i gofrestru fel gweithwyr cefnogi ieuenctid gyda Chyngor y Gweithlu Addysg h.y. nad ydynt yn meddu ar gymhwyster lefel 3 neu uwch.** Fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys ystod eang o bobl yn cynnwys gwirfoddolwyr a gweithwyr rhan amser. Er na fyddai'r bobl yma i gyd eisiau mynd ymhellach gyda'u cymwysterau gwaith ieuenctid, bydd angen i'r rheiny sydd eisiau parhau i fod yn Weithwyr Cefnogi Ieuenctid, ac felly i allu cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg o fis Mai 2025, ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol. Mae'r cynllun hyfforddiant, sy'n cael ei ariannu trwy Lywodraeth Cymru, yn canolbwyntio'n gryf ar gefnogi'r bobl hynny sydd eisiau datblygu i'r lefel hon.

**Yn ogystal â hyn, bu i'r sefydliadau gofnodi bod 80.5% o'r ymatebwyr yn nodi bod eu sefydliad wedi cael ei effeithio arno gan broblemau recriwtio a chadw staff, lle cafodd canlyniad uchaf y canlyniad hwnnw 72.7% o ymatebwyr yn egluro bod staff yn gweithio y tu hwnt i'w gallu.**

# 4. Cymwysterau Gwaith Ieuenctid a'r Llwybr Cynnydd

## Nodau

O fewn tair blynedd, bydd gan y gweithlu Gwaith Ieuenctid ddull systematig, blaengar a chynaliadwy i ddatblygu Gwaith Ieuenctid fel proffesiwn, gyda chyfleoedd clir i ddatblygu.

## Pam Ein Bod Ni'n Gwneud Hyn?

Mae meddu ar lwybr dilyniant cymhwyster Gwaith Ieuenctid clir yn hanfodol ar gyfer sicrhau y gall unigolion ddatblygu eu sgiliau yn effeithiol, ennill cymwysterau Gwaith Ieuenctid a gydnabyddir gan y JNC, a symud ymlaen yn eu gyrfaoedd. Mae'n dangos y ffordd yn glir ar gyfer y sector (Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru).

Y gweithlu yw ased mwyaf y sector Gwaith Ieuenctid ac, i sicrhau cynaliadwyedd, mae angen pwrpas clir, synnwyr o gyfeiriad a strwythur gyrfa clir sy'n gwobrwyo ac yn rhoi dilyniant ar bob lefel o'r proffesiwn. Rydym yn cydnabod yr angen i weithio'n strategol ac ar y cyd â Llywodraeth Cymru a budd-ddeiliaid allweddol eraill, er mwyn sicrhau cefnogaeth strategol a chyllid i sefydliadau sy'n arwain ac yn darparu gwaith ieuenctid.

**I wneud hyn, ein bwriad yw:**

| | |
|---|---|
| **Amcan 1** | Datblygu strategaeth genedlaethol i alluogi llwybr cynnydd parhaus wedi'i ariannu'n ddigonol i ymarferwyr Gwaith Ieuenctid ennill cymwysterau Gwaith Ieuenctid y JNC a'u galluogi nhw i fodloni'r gofynion cofrestru, bydd hyn yn cynnwys pobl ifanc, gwirfoddolwyr, Gweithwyr Cefnogi Ieuenctid a Gweithwyr Ieuenctid. |
| **Amcan 2** | Datblygu, cydlynu a chefnogi darpariaeth hyfforddiant a chyfleoedd datblygu gyrfa yn lleol, cenedlaethol a rhanbarthol. Datblygu arbenigedd a gwybodaeth pwnc arbenigol a ellir ei rannu i wella ymarfer Gwaith Ieuenctid a chefnogi anghenion lleol. |
| **Amcan 3** | Hyrwyddo'r llwybr cynnydd ar gyfer Gwaith Ieuenctid i bawb yn y sector, fel bod y siwrnai i ennill cymwysterau yn dryloyw ac yn cael ei deall, yn ogystal â defnyddio'r llwybr i ddenu pobl i ymuno â'r sector. |
| **Amcan 4** | Adolygu'r amrywiaeth o gymwysterau gweithwyr cefnogi ieuenctid, a'r strwythur ar gyfer eu cyflwyno a'u hasesu, er mwyn sicrhau bod y cymhwyster yn hygyrch i'r rhai sy'n gweithio'n rhan-amser ac i'r rhai nad ydynt yn gallu ymrwymo i ddiwrnodau llawn, fel bod gan ymarferwyr hyblygrwydd a'u bod yn gallu dewis y llwybr cywir iddyn nhw. |
| **Amcan 5** | Ystyried ffyrdd amgen, mwy hyblyg o asesu cymwysterau, fel y cynnig prentisiaeth yng Nghymru i ymarferwyr gymhwyso fel Gweithiwyr Cefnogi Ieuenctid. |
| **Amcan 6** | Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru i ddefnyddio prosesau cymeradwyo'r JNC er mwyn sicrhau bod ansawdd y cymwysterau proffesiynol yn diwallu anghenion y sector Gwaith Ieuenctid, a datblygu proses gymeradwyo i sicrhau bod safonau yn cael eu cynnal a'u bod yn gyson mewn cyrsiau hyfforddiant a dysgu proffesiynol eraill. |
| **Amcan 7** | Sicrhau bod darpariaeth fel bod yr holl ddysgwyr yn gallu cyflawni, drwy recriwtio a hyrwyddo cyrsiau i grwpiau lleiafrifol sydd wedi'u tangynrychioli a sicrhau bod y cyrsiau yn hygyrch i'r rhai sydd angen cefnogaeth ddysgu ychwanegol. |
| **Amcan 8** | Buddsoddi yn yr isadeiledd ar gyfer hyfforddwyr ac aseswyr a all hyfforddi, asesu a sicrhau ansawdd cymwysterau Gwaith Ieuenctid yn hyderus a datblygu hyfforddiant i oruchwylwyr, gan gefnogi Gweithwyr Ieuenctid mewn hyfforddiant. |


# Dilyniant: Llwybr Cymwysterau Gwaith Ieuenctid Cydnabyddedig yng Nghymru

**Gallwch roi'r gorau iddi ar unrhyw gyfnod. Nid oes raid i Weithwyr Cefnogi Ieuenctid sy'n gweithio ar y lefel honno gwblhau gradd.**

Sganiwch y Cod QR i weld yr hyfforddiant sydd ar gael i **weithwyr ieuenctid yng Nghymru**

**Cymwysterau JNC (DU a holl Iwerddon)**

**DPP/PL = Dysgu Proffesiynol sy'n digwydd trwy gydol eich gyrfa**



# 5. Dysgu Proffesiynol (Datblygiad Proffesiynol Parhaus) ar gyfer y Gweithlu

## Nodau

Gwella galluoedd, gwybodaeth ac arferion proffesiynol Gweithwyr Ieuenctid yng Nghymru trwy strategaeth ddysgu ddynamig, cynhwysol ac sy'n berthnasol yn ddiwylliannol, sy'n meithrin datblygiad parhaus, cefnogi anghenion amrywiol pobl ifanc ac yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid.

## Pam Ein Bod Ni'n Gwneud Hyn?

Mae'n hanfodol bod ymarferwyr, arweinwyr a rheolwyr Gwaith Ieuenctid yn parhau i gydnabod a diwallu anghenion pobl ifanc o fewn eu cymunedau. Bydd y cynllun hwn yn galluogi i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau strategol i sicrhau bod y polisi yn diwallu anghenion ymarferwyr Gwaith Ieuenctid, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu. Mae'r dulliau cenedlaethol tuag at ddysgu a datblygiad proffesiynol wedi bod yn brin yn y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i nifer o faterion yn cynnwys Covid 19, caledi a phroblemau recriwtio a chadw staff, sydd wedi cael effaith sylweddol ar weithwyr proffesiynol a sefydliadau.

**I wneud hyn, ein bwriad yw:**

| | |
|---|---|
| **Amcan 1** | Cydweithio â budd-ddeiliaid allweddol i gryfhau'r cynnig dysgu proffesiynol / Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn y Sector Gwaith Ieuenctid ar gyfer staff cymwysedig a staff heb gymwysterau. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc a gwirfoddolwyr, yn ogystal â Gweithwyr Cefnogi Ieuenctid, Gweithwyr Ieuenctid, ac arweinwyr a rheolwyr Gwaith Ieuenctid. |
| **Amcan 2** | Gweithio gydag arweinwyr a rheolwyr a darpar arweinwyr a rheolwyr i gryfhau cyfleoedd datblygu arweinyddiaeth ar gyfer y sector Gwaith Ieuenctid, a darparu cyfleoedd ar gyfer dyrchafiad a datblygu gyrfa. |
| **Amcan 3** | Datblygu strategaeth i nodi a blaenoriaethu cyfleoedd ac anghenion dysgu proffesiynol o fewn y sector yn rheolaidd, fel bod ymarferwyr mewn gwell sefyllfa i gefnogi pobl ifanc trwy anghenion sy'n codi. |
| **Amcan 4** | Cynnal a datblygu gwaith gyda rhwydweithiau strategol ymhellach i rannu arloesedd ac arferion creadigol, a ellir eu lledaenu ar draws Cymru. Dylai hyn hefyd gynnwys gwaith o sectorau eraill sy'n cynnig ymagweddau tebyg at Waith Ieuenctid, megis Gwaith Chwarae. |
| **Amcan 5** | Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu banc o adnoddau hyfforddiant a dulliau asesu a ellir eu hailadrodd ar lefel sefydliadol ac o fewn rhanbarthau, a fydd ar gael i hyfforddwyr ar draws Cymru ac sy'n eiddo i'r sector. |
| **Amcan 6** | Hyrwyddo dull strategol i ddatblygu dysgu proffesiynol ar gyfer Gwaith Ieuenctid a sectorau perthynol, i'w galluogi nhw i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i heriau'r dyfodol sy'n effeithio ar ganlyniadau a lles cyffredinol pobl ifanc, er enghraifft y defnydd o dechnoleg ddigidol fodern gan gynnwys deallusrwydd artiffisial. |
| **Amcan 7** | Datblygu cynllun dysgu proffesiynol hirdymor o gyrsiau a ariennir, i alluogi arweinwyr strategol i ychwanegu hyn at eu gwaith cynllunio blynyddol; a gweithio gyda Sefydliadau Addysg Uwch sy'n cynnig y rhaglen Gwaith Ieuenctid er mwyn gallu ymgorffori hyfforddiant a ariennir yn eu rhaglenni. |
| **Amcan 8** | Parhau i wella sgiliau'r sector er mwyn galluogi ymarferwyr i gynnig eu hyfforddiant eu hunain, yn fewnol ac yn allanol, yn lleol ac yn rhanbarthol, i ymarferwyr eraill yn eu sector. |

Mae dysgu proffesiynol ar gyfer gweithwyr ieuenctid yn hanfodol er mwyn gwella eu sgiliau, gwybodaeth a'u heffeithiolrwydd wrth gefnogi pobl ifanc. Gan adeiladu ar y dystiolaeth o'r Archwiliad Sgiliau a Hyfforddiant, mae Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru wedi datblygu amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael i ymarferwyr gwaith ieuenctid a byddant yn parhau i ychwanegu at y rhaglen hyfforddiant. I gael gwybod mwy, dilynwch y ddolen yma: https://tinyurl.com/9wdr4c46.

I gael diweddariadau rheolaidd am y cyrsiau sydd ar gael, cofrestrwch ar gyfer rhestr bostio Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru drwy glicio yma: http://eepurl.com/iNf3n-/.

# 6. Ffyrdd o Weithio

## Nodau

Creu gweithlu Gwaith Ieuenctid cydweithredol a chysylltiadau da yng Nghymru drwy ddatblygu cyfleoedd rhwydweithio cadarn, hyrwyddo cydweithio effeithiol ymhlith cydweithwyr yn y sector a budd-ddeiliaid, a sefydlu arloesedd.

## Pam Ein Bod Ni'n Gwneud Hyn?

Fel yr amlygwyd yn adroddiad Archwiliad Sgiliau a Hyfforddiant 2024, mae'r sector Gwaith Ieuenctid yn wynebu rhwystrau cynyddol o ran cael mynediad at ddysgu proffesiynol a hyfforddiant cymhwyso. Nid oes gan y sector gronfa o ymarferwyr a all gyflenwi. Felly, pan fydd Gweithwyr Ieuenctid yn mynd i hyfforddiant, yn aml iawn bydd darpariaethau ieuenctid yn gorfod cau a sesiynau cefnogi yn cael eu canslo. Weithiau, bydd unigolion yn gwneud y penderfyniad i beidio â mynd i'r hyfforddiant, er mor ddefnyddiol y gallai'r hyfforddiant hwnnw fod yn yr hirdymor. Er mwyn lleihau baich hyfforddiant a'i wneud yn fwy hygyrch, gallai'r amcanion isod helpu i leihau rhwystrau, ac annog darpariaeth hyfforddiant mewn ffordd wahanol.

**I wneud hyn, ein bwriad yw:**

| | |
|---|---|
| **Amcan 1** | Datblygu cyfleoedd i feithrin diwylliant dysgu ar gyfer ymarferwyr Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, drwy greu cyfleoedd rhwydweithio a chydweithio, i rannu arferion, datblygu a rhannu adnoddau. |
| **Amcan 2** | Gweithio gyda chydweithwyr ar draws y sector Gwaith Ieuenctid i ddatblygu dulliau hyfforddi arloesol, i leihau rhwystrau o ran cael mynediad at hyfforddiant drwy ddatblygu dulliau hyfforddi anhraddodiadol. |
| **Amcan 3** | Datblygu dulliau arloesol a chreadigol o ddysgu proffesiynol drwy greu digwyddiadau hyfforddiant sy'n gymysgedd o ddulliau hyfforddiant traddodiadol a rhai nad ydynt yn draddodiadol, fel Podlediadau, e-ddysgu, mentora, goruchwyliaeth effeithiol a chyfleoedd ymchwil dan arweiniad cymheiriaid gydag eraill ar draws y sector. |
| **Amcan 4** | Datblygu proses cynhyrchu a fframwaith cyfathrebu lle gellir hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant a chymwysterau yn uniongyrchol i ymarferwyr er mwyn gwella cyrhaeddiad hyfforddiant ar draws Cymru. |
| **Amcan 5** | Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ariannu'r prosiect Datblygu Gweithlu a gynhelir gan Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru / CLILC. |
| **Amcan 6** | Sicrhau bod rôl Swyddog Datblygu'r Gweithlu yn parhau i arwain a rheoli datblygu'r gweithlu ar gyfer y gweithlu Gwaith Ieuenctid. |
| **Amcan 7** | Parhau i weithio gyda Chwarae Cymru, y sector gwaith chwarae a Chyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru i gynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol ar y cyd i weithwyr ieuenctid a gweithwyr chwarae. |
| **Amcan 8** | Gweithio gyda darparwyr hyfforddiant a chymwysterau Gwaith Ieuenctid i sicrhau bod y rhaglenni a gynigir yn adlewyrchu cymhlethdodau a realaeth y pwysau gwaith y mae'r sector yn ei wynebu'n rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys oriau anghymdeithasol, gweithio ar y penwythnos ac ati … er mwyn sicrhau bod y strategaethau recriwtio yn dryloyw a bod cynnwys y cwrs yn diwallu anghenion presennol pobl ifanc yng Nghymru. |

# 7. Y Gymraeg a Diwylliant Cymru

## Nodau

Nod Llywodraeth Cymru yw cyflawni 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, wrth gyflwyno Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), lle mae newidiadau arfaethedig i'r ffordd y mae addysg Gymraeg yn cael ei chynllunio a'i darparu. Y nod yw y bydd yr holl bobl ifanc yn dod yn ddefnyddwyr annibynnol o'r Gymraeg erbyn iddynt gyrraedd oedran ysgol gorfodol. Mae gan y sector Gwaith Ieuenctid rôl allweddol i'w chwarae o ran helpu i gyflawni'r nodau hyn. Dylai cynyddu nifer y Gweithwyr Ieuenctid sy'n siarad Cymraeg, a all weithio gyda phobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg, barhau i fod yn flaenoriaeth.

## Pam Ein Bod Ni'n Gwneud Hyn?

Mae recriwtio a chadw ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg yn her o fewn y sector Gwaith Ieuenctid a thu hwnt. Felly, mae'n hanfodol bod y sector yn cadw at Safonau'r Gymraeg ac yn cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei darged o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ddathlu diwylliant Cymru.

**I wneud hyn, ein bwriad yw:**

| | |
|---|---|
| **Amcan 1** | Datblygu cyfleoedd arloesol i ymarferwyr gyfathrebu yn y Gymraeg a magu hyder mewn darparu darpariaeth i bobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg, fel lleoliadau sabothol a rhaglenni mentora. |
| **Amcan 2** | Datblygu cyfleoedd pontio hirdymor ar gyfer ymarferwyr Gwaith Ieuenctid i ymgysylltu â dysgu proffesiynol a fydd yn gwella eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn Diwylliant Cymru, i'w galluogi nhw i ddarparu gweithgareddau i bobl ifanc ddysgu am eu treftadaeth Gymreig, diwylliant Cymru a'r Gymraeg. |
| **Amcan 3** | Buddsoddi mewn datblygu gwaelodlin o ymarferwyr Gwaith Ieuenctid a all darparu, asesu a sicrhau ansawdd cymwysterau ar draws Cymru. Bydd hyn yn galluogi i diwtoriaid hwyluso dysgu proffesiynol a chymwysterau Gwaith Ieuenctid mwy penodol, trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Amcan 4** | Annog ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg i ymgysylltu mewn dysgu a chymwysterau proffesiynol i allu gwneud cais am swyddi arweinyddiaeth a rheoli. |
| **Amcan 5** | Datblygu cyfleoedd i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddysgu'r Gymraeg a magu hyder o ran defnyddio'r iaith, gyda chwmpas i ddathlu'r Gymraeg a gallu cynnig darpariaeth i bobl ifanc drwy hyrwyddo rhaglenni a sefydliadau sydd eisoes yn bod fel Dysgu Cymraeg. |
| **Amcan 6** | Datblygu ymgyrchoedd recriwtio sydd wedi'u targedu sy'n canolbwyntio ar gyfleoedd Gwaith Ieuenctid sy'n seiliedig ar y Gymraeg i ymarferwyr yn y gweithle a chymwysterau Gwaith Ieuenctid fel y Dystysgrif Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith ieuenctid a'r rhaglenni Gradd. |
| **Amcan 7** | Sicrhau bod lleisiau ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cynnwys wrth ddylunio a gweithredu polisïau a strategaethau ar gyfer y sector Gwaith Ieuenctid yng Nghymru. |
| **Amcan 8** | Datblygu rhwydwaith cenedlaethol o Weithwyr Ieuenctid cyfrwng Cymraeg ar draws yr holl ddarparwyr i gefnogi darpariaeth Gwaith Ieuenctid cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i rannu arbenigedd, datblygu adnoddau a dull mwy cydlynol i gefnogi darpariaeth. |

# 8. Diwallu anghenion y bobl ifanc trwy ddatblygu’r gweithlu

## Nodau

Sicrhau bod cyfleoedd datblygiad proffesiynol yn cael eu darparu a bod dulliau arloesol a chymwysterau Gwaith Ieuenctid yn cael eu cynnal ar safon uchel i ddiwallu anghenion pobl ifanc drwy gefnogi ymarferwyr Gwaith Ieuenctid trwy eu siwrnai ddysgu.

## Pam Ein Bod Ni’n Gwneud Hyn?

Mae cadw staff Gwaith Ieuenctid yn broblem sylweddol o fewn y sector gwirfoddol a’r sectorau a gynhelir ac mae angen mynd i’r afael arno ar frys er mwyn datblygu gweithlu cynaliadwy. Mae’r strategaeth a’r cynllun datblygu’r gweithlu hwn yn nodi materion yn ymwneud â recriwtio a chadw’r gweithlu ac mae’n cynnwys datrysiadau strategol ac ymarferol i fynd i’r afael arnynt.

**I wneud hyn, ein bwriad yw:**

| | |
|---|---|
| **Amcan 1** | Gweithio ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru a grwpiau eraill i rannu a hwyluso’r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu’r gweithlu a chyfleodd hyfforddiant a datblygu, sy’n addas i’r diben a gallu cyfathrebu’n uniongyrchol ag ymarferwyr gwaith ieuenctid. |
| **Amcan 2** | Gweithio gyda chydweithwyr y sector i sicrhau bod anghenion datblygu sgiliau a hyfforddiant yn cael eu casglu i adlewyrchu anghenion pobl ifanc, yn ogystal ag alinio â blaenoriaethau cenedlaethol newydd ac sy’n dod i’r amlwg. |
| **Amcan 3** | Yn seiliedig ar ganlyniadau dadansoddiad anghenion hyfforddiant blynyddol, datblygu rhaglen hyfforddiant wedi’i ariannu, sy’n hyblyg, addas ac yn hygyrch i ymarferwyr Gwaith Ieuenctid, i ddiwallu anghenion pobl ifanc yn fwy effeithiol. |
| **Amcan 4** | Gweithio gyda fforymau cyfranogiad dan arweiniad pobl ifanc i sefydlu sut all y gweithlu ddiwallu anghenion pobl ifanc, drwy ddefnyddio’r fforymau sydd eisoes wedi’u sefydlu. |
| **Amcan 5** | Sicrhau bod dulliau gwerthuso effeithiol ar waith i nodi llwyddiant yr hyfforddiant a gynigir a p’un a yw’n addas i fodloni’r canlyniadau dymunol. |
| **Amcan 6** | Hyrwyddo dull strategol i ddatblygu dysgu proffesiynol ar gyfer y sector Gwaith Ieuenctid a sectorau sy’n cefnogi Gwaith Ieuenctid neu sy’n cael eu cefnogi ganddynt, i’w galluogi nhw i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i heriau’r dyfodol sy’n effeithio ar ymarferwyr Gwaith Ieuenctid a’u darpariaeth wrth weithio gyda phobl ifanc. |
| **Amcan 7** | Datblygu dulliau i ragweld anghenion pobl ifanc yn y dyfodol a meysydd polisi’r dyfodol a fydd yn effeithio ar ymatebion Gweithwyr Ieuenctid yn eu gallu i gefnogi pobl ifanc a darparu darpariaeth. |
| **Amcan 8** | Gweithio gydag arweinwyr y sector Gwaith Ieuenctid i ddatblygu cyfleoedd i ymarferwyr ddatblygu arferion Gwaith Ieuenctid Digidol a lledaenu gwybodaeth, cefnogaeth ac arweiniad Ieuenctid, gan ddefnyddio technegau cyfoes. |

# 9. Hyrwyddo Gwaith Ieuenctid fel Dewis Gyrfa

## Nodau

Sefydlu strategaethau a mentrau ymarferol i hyrwyddo Gwaith Ieuenctid fel dewis gyrfa, sy'n hanfodol i ddenu unigolion talentog sy'n angerddol am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl ifanc.

## Pam Ein Bod Ni'n Gwneud Hyn?

Mae recriwtio ymarferwyr Gwaith Ieuenctid yn parhau i fod yn her ar draws y sector. Er nad Gwaith Ieuenctid yw'r unig sector sy'n wynebu'r broblem hon, mae'n anghymesur o'i chymharu â sectorau eraill yng Nghymru. Bwriad y cynllun hwn yw gwneud Gwaith Ieuenctid yn llwybr gyrfa deniadol, sy'n cynyddu nifer y bobl sy'n cofrestru ar gyfer cymwysterau Gwaith Ieuenctid, ac felly'n cynyddu maint posibl y gweithlu ar draws Cymru a chreu mwy o gapasiti ar gyfer sefydliadau Gwaith Ieuenctid, ac felly'n cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc.

**I wneud hyn, ein bwriad yw:**

| | |
|---|---|
| **Amcan 1** | Gweithio ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru i ddylunio a datblygu cynllun a strategaeth farchnata hirdymor i hyrwyddo Hyfforddiant Gwaith Ieuenctid proffesiynol a Gwaith Ieuenctid fel gyrfa. Lledaenu'r strategaeth i hyrwyddo Gwaith Ieuenctid fel gyrfa broffesiynol a gwobrwyol. |
| **Amcan 2** | Adolygu a monitro'r angen am system bwrsariaeth, sy'n adlewyrchu'r rhai sydd ar waith ar gyfer addysgu a gwaith cymdeithasol a phrofi a oes cwmpas i ariannu Addysg Gychwynnol i Weithwyr Ieuenctid. |
| **Amcan 3** | Cefnogi a hyrwyddo darpariaeth goruchwyliaeth a mentora o ansawdd da ar gyfer myfyrwyr gwaith ieuenctid, ymarferwyr, rheolwyr ac arweinwyr |
| **Amcan 4** | Hyrwyddo Gwaith Ieuenctid fel proffesiwn yn unol â sectorau eraill megis addysg ffurfiol a gwaith cymdeithasol, drwy amlygu'r dulliau a ddefnyddir i ddarparu Gwaith Ieuenctid a sylfaen gwerthoedd a safonau cryf Gwaith Ieuenctid. |
| **Amcan 5** | Adolygu'r angen ac, os yw'n angenrheidiol, datblygu cam cynefino i Waith Ieuenctid ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid proffesiynol sydd newydd gymhwyso, yn debyg i'r gofyniad ar gyfer athrawon newydd gymhwyso. |
| **Amcan 6** | Gweithio gyda'r sector Addysg Bellach i sicrhau bod cymwysterau Gweithwyr Cefnogi Ieuenctid yn hygyrch, wedi'u hariannu ac yn cael eu defnyddio ar draws y sector i sicrhau bod llif cyson o weithlu'r dyfodol. |
| **Amcan 7** | Datblygu rhaglen mynediad gydlynol sy'n cefnogi pobl ifanc a gwirfoddolwyr tuag at Waith Ieuenctid, gan dargedu pobl ifanc sydd eisoes yn ymwneud â Gwaith Ieuenctid drwy fforymau cyfranogi ieuenctid, gwirfoddoli neu raglenni gwaith. |
| **Amcan 8** | Gweithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg drwy raglen Addysgwyr Cymru a phartneriaid fel Gyrfa Cymru i fynd i ddigwyddiadau gyrfaoedd i ddatblygu ymgyrchoedd a hyrwyddo cymwysterau Gwaith Ieuenctid, fel y rhaglenni BA / MA a Chymwysterau Gweithwyr Cefnogi Ieuenctid. Y nod yw targedu pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol / coleg a'r rhai o broffesiynau eraill sydd am weithio gyda phobl ifanc. |

# 10. Llywodraethu ac Atebolrwydd

## Nodau

Cynnal a datblygu fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd effeithiol ar gyfer Cynllun Datblygu'r Gweithlu ym maes Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (y Cynllun) er mwyn cefnogi datblygiad, cymhwyster a hyfforddiant y gweithlu Gwaith Ieuenctid yn briodol.

Er mwyn cyflawni hyn dylai'r fframwaith llywodraethu:

- ☑ Adeiladu ar waith Grŵp Cyfranogi Gweithredu Datblygu'r Gweithlu sy'n cynnwys haenau lluosog a budd-ddeiliaid i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei roi ar waith yn effeithiol ac yn effeithlon.
- ☑ Sicrhau bod y Cynllun yn cyd-fynd â pholisïau cenedlaethol, yn diwallu anghenion pobl ifanc, ac yn atebol i'r cyhoedd a'r sector Gwaith Ieuenctid; a'i fod yn tanategu ac yn llywio hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a dysgu ar draws y sector, drwy fynegi'r heriau a'r cyfleoedd sy'n effeithio ar y sector a thrwy weithredu fel llwyfan ar gyfer newid.

Er mwyn llywodraethu gweithrediad y Cynllun yn effeithiol, bydd Cynllun Cyflawni Blynyddol yn cael ei ddatblygu a fydd yn nodi'r camau i'w rhoi ar waith bob blwyddyn o Gynllun Datblygu'r Gweithlu Gwaith Ieuenctid.  Swyddog Datblygu'r Gweithlu, sy'n gweithredu o fewn ETS ar hyn o bryd ac a gynhelir gan CLILC, fydd yn gyfrifol am y Cynllun Cyflawni Blynyddol. Bydd y Cynllun Cyflawni yn rhoi mwy o fanylion a dulliau a fydd yn amlinellu amserlenni, yr unigolyn/unigolion cyfrifol ac effeithiau mesuradwy.

Tra'n aros am benderfyniad ynghylch a fydd corff cenedlaethol ar gyfer gwaith Ieuenctid yn cael ei sefydlu ai peidio, bydd Grŵp Cyfranogi Gweithredu Datblygu'r Gweithlu yn darparu gwaith llywodraethu, yn sicrhau atebolrwydd ac yn craffu ar Gynllun Datblygu'r Gweithlu a'r Cynllun Cyflawni Blynyddol. Dylai camau pellach gynnwys:

- Gweithio gyda chydweithwyr y sector i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn berthnasol.
- Datblygu dulliau monitro a gwerthuso clir i fesur llwyddiant y Cynllun a'r Cynllun Cyflawni drwy sefydlu dangosyddion perfformiad allweddol cytunedig, adrodd yn rheolaidd ac archwilio ac ymgysylltu'n barhaus â budd-ddeiliaid.
- Mynd ati i ymgynghori â'r sector Gwaith Ieuenctid a phartneriaid strategol ar y cynllun datblygu'r gweithlu hwn a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â chyfeiriad strategol a pholisïau Llywodraeth Cymru.
- Datblygu darn o waith i ddeall y bylchau posibl a gwirioneddol yn y gwasanaethau a ddarperir, er mwyn deall faint o ymarferwyr y bydd eu hangen ar y sector, tra'n sicrhau darpariaeth gynaliadwy, ac osgoi materion fel cau gwasanaethau neu weithredu gydag ond nifer fechan o staff, sy'n niweidiol i bobl ifanc a'r gweithlu.
- Datblygu darn o waith i ddeall lle mae myfyrwyr yn dod o hyd i gyfleoedd cyflogaeth a/neu wirfoddoli unwaith y byddant yn cymhwyso er mwyn deall llwyddiant y rhaglenni cymhwyso Gwaith Ieuenctid, a sicrhau bod y cynnig dysgu proffesiynol yn hygyrch i bob gweithiwr ieuenctid, waeth beth fo'r lleoliad.

# 11. Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru

## Er mwyn i'r cynllun hwn fod yn effeithiol, mae'n bwysig bod y pwyntiau a restrir isod yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru:

Gyda'r penderfyniad a wnaed i ddatblygu Corff Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, dylai Llywodraeth Cymru barhau i ariannu'r prosiect Datblygu'r Gweithlu a gynhelir gan ETS / WLGA a sicrhau bod rôl y Swyddog Datblygu'r Gweithlu yn parhau i arwain a rheoli datblygu'r gweithlu Gwaith Ieuenctid.

Gyda'r penderfyniad a wnaed i ddatblygu Corff Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, dylai Datblygu'r Gweithlu fod yn swyddogaeth allweddol o fewn y corff, lle byddai'n elwa o gydweithio â disgyblaethau ategol, fel gweinyddiaeth, cyfathrebu a marchnata. Os penderfynir peidio â symud i Gorff Cenedlaethol, dylai prosiect Datblygu'r Gweithlu Cenedlaethol barhau i gael ymateb iddo a gallu diwallu anghenion pobl ifanc yn eu cymunedau.

Pe bai'r ddeddfwriaeth newydd a'r canllawiau dilynol gan Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol arwain ar gynlluniau strategol 5 mlynedd a'u llunio, rhagwelir y bydd y rhain yn cynnwys cynllunio a datblygu'r gweithlu. Os mai dyma'r achos, bydd angen goruchwyliaeth, craffu a chefnogaeth briodol ar unrhyw ganllawiau yn hyn o beth hefyd fel rhan o'r cynlluniau i osgoi dyblygu, i sicrhau bod datblygiad gweithlu lleol, trawsffiniol a rhanbarthol yn cydlynu â'r cynllun datblygu gweithlu cenedlaethol ac yn ei ategu, bod y trydydd sector yn cymryd rhan lawn ac i sicrhau cynaliadwyedd y gweithlu.

Yn olaf, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnwys rhaglenni Gwaith Ieuenctid yn yr Hawl Dysgu Proffesiynol a bwrsariaeth i ariannu ymarferwyr i ennill graddau Cymhwyso Gwaith Ieuenctid JNC neu Ddiplomâu Ôl-raddedig, ar ôl i adolygiad o'r bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth gael ei gwblhau, er mwyn annog pobl i ymuno â'r sector ac i'r ymarferwyr hynny sy'n gweithredu fel Gweithiwr Cymorth Ieuenctid, i gymhwyso'n broffesiynol a symud ymlaen yn eu gyrfa Gwaith Ieuenctid.

Drwy gydol yr ymgynghoriad ar y Cynllun hwn, oherwydd anawsterau o ran cael gafael ar gyllid perthnasol, mae cydweithwyr wedi mynegi bod eu gallu i ddatblygu a hyfforddi'r gweithlu yn cael ei beryglu'n rheolaidd. Felly, mae'r sector yn galw am gyllid a fydd yn rhoi'r gallu i sefydliadau ddarparu yswiriant perthnasol (lle bo ar gael) wrth gymryd rhan mewn hyfforddiant cymhwyso Gwaith Ieuenctid, a thrwy hynny osgoi cau darpariaeth.

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a budd-ddeiliaid i allu gweithredu Cynllun Datblygu'r Gweithlu Ieuenctid.

# 12. Cyfeiriadau a Chydnabyddiaethau

Mae'r ddogfen hon yn cydnabod ymdrechion aelodau'r Grŵp Cyfranogi Gweithredu Datblygu'r Gweithlu (GCGDG), Pwyllgor Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru a Llywodraeth Cymru a phwysigrwydd eu rôl mewn cynorthwyo â dyluniad y ddogfen hon:

**Jo Sims (Cadeirydd GCGDG)**
**Steve Drowley (Cadeirydd Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru)**
**Josh Klein (Cadeirydd GPSI)**
**Darryl White (WDO)**
**Gill Price**
**Tim Opie**
**Liz Rose**
**Rachel Burton**
**Catrin James**
**Jo Aubrey**
**Julie Edwards**
**Emma Chivers**
**Tara Reddy**
**Hayden Llewellyn**
**Gareth Kiff**
**Linda Howells**
**Matthew Parry**
**Rowan Hodgkinson**
**Chloe Wilmott**
**Martin King-Sheard**

Diolch eto i Swyddogion Llywodraeth Cymru sydd wedi cefnogi datblygiad y cynllun hwn.

- Bacon, E Mapping and analysing the voluntary youth work sector in Wales (uswvarious1.blob.core.windows.net) 2023
- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC)
- Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion
- Adolygiad Estyn o Wasanaethau Cefnogi Ieuenctid
- Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid
- Mae'n Bryd Cyflawni dros Bobl Ifanc yng Nghymru
- Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru
- Data Cyngor y Gweithlu Addysg
- JNC






Safonau Addysg Hyfforddiant
Education Training Standards
Gwaith Ieuenctid • Gwaith Chwarae
Youth Work • Playwork

E: **ets@wlga.gov.uk**
F: **029 20 468600**
G: **www.etswales.org.uk**

W

ETS Cymru
c/o Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru,
Un Rhodfa'r Gamlas,
Heol Dumballs,
Caerdydd CF10 5BF

Hawlfraint © ETS Cymru.

Dilynwch: